# Cyngor Cymuned Glantwymyn

**Nôs Iau, 26ain Chwefror 2015.**

**Presennol. Mri:-** Dafydd Evans, A. O. Griffiths, Siôn Ifans, D.G.Jones, H.D.Jones, J.P.Jones, D. Lewis, S.G.Owen, W.N.Owen, G.Wigley, H.M.Williams, Mrs Gwenfair Davies, Mrs Ann Williams, a'r Cyng. G.P.Fychan.

**Ymddiheuriadau. Mri:-** Paul Hughes a Mrs Gwen Lloyd.

Eglurodd y clerc fod trefniant wedi ei wneud efo Mr Alistair Knox o'r Cyngor Sir i fod yn bresennol i egluro ymhellach y posibilrwydd o drosglwyddo'r cyfleusterau cyhoeddus yng Nghemaes i ofal Cyngor Glantwymyn. Yn anffodus, o achos anhwylder, nid oedd Mr Knox yn medru dod. Cytunwyd gofyn iddo i gyfarfod mis Mawrth.

**77. Cofnodion cyfarfod 29ain Ionawr 2015.**
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod uchod a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**78. Materion yn codi o'r cofnodion.**
4.42.3 Yn dilyn cyfarfod adeiladol ym Mhantperthog, mae gobaith fod mater y safle, lle safai Mount Pleasant, wedi ei ddatrys a bod y Swyddfa Gymreig yn bwriadu trosglwyddo'r cyfrifoldeb o gynnal a chadw'r safle yn y dyfodol i'r awdurdod 'Cyfoeth Naturiol Cymru.'
66.1 Dim ateb hyd yn hyn ynglŷn â chasglu'r sbwriel.
74.1 Darllenwyd ymateb PC Kieran Day i'r broblem o ddelio efo'r sbwriel mewn culfannau ac ar ymyl y ffyrdd. Nid oedd yn cymeradwyo i'r cyhoedd gymryd y mater i'w dwylo eu hun trwy dynnu lluniau o'r troseddwyr. Mater i'r Heddlu a'r Cyngor Sir ydyw.

**79. Cynllunio.**
P2015/0099. Newid storfa i fod yn lle addas i fyw ynddo ym Mhen y Bont, Glantwymyn. Cefnogi.

**80. Eitemau i'w talu.**
80.1 Hysbyseb yn y Blewyn Glas. £10
80.2 Llogi'r Ganolfan yng Nglantwymyn am y flwyddyn o Medi 2014 hyd Awst 2015. £110
80.3 Llogi'r Neuadd Bentref ym Mhantperthog am ddau gyfarfod i drafod dyfodol y safle lle safai Mount Pleasant yng Ngheinws. £24.
80.4 Aelodaeth Un Llais Cymru. £180
80.5 I Gloversure, Y Trallwng am baratoi'r wefan. Bydd y Cyngor wedi ei gysylltu o ddechrau mis Ebrill. £555.60. (TAW 92.60). O hyn ymlaen bydd £75 + TAW yn ddyledus i Gloversure yn flynyddol i gynnal y wefan.

**81. Cais am arian.**
Ni dderbyniwyd cais yn ystod y mis.

**82. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr.**
Ni dderbyniwyd adroddiad.

**83. Gohebiaeth.**
83.1 Diogelwch yn y cartref. Cymdeithas o fewn Powys sy'n barod i gynorthwyo'r rhai hŷn mewn cymdeithas. Cysyllter â Sally Shiels ar 01597828049 neu e-bost sshiels@crpowys.co.uk
83.2 Russell George yn gofyn i'r Cyngor ddatgan barn o blaid neu wrthwynebu'r cynllun am ffordd osgoi Y Drenewydd. Y gwaith i ddechrau yn hwyrach yn y flwyddyn os na fydd ymchwiliad cyhoeddus. Nid dderbyniwyd unrhyw sylw.
83.3 Cais i'r Cyngor ddod yn aelod o PAVO *(Powys Association of Voluntary Organisations) (Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys).* Nid oes angen tâl ymaelodi. Cytuno i ymaelodi.

**84. Unrhyw fater arall.**

84.1 Gan fod y cynllun 'Pryd ar Glyd' yn dod i ben yn yr ardal, awgrymwyd diolch i Mrs Susan Hughes, Mathafarn am drefnu'r gwasanaeth yn lleol dros gyfnod o flynyddoedd lawer.

84.2 Atgoffa'r Cyngor Sir eto am y problemau gwteri ar ffordd Llanwrin a'r coed sy'n gordyfu wrth Brookville, Cwmlline.

84.3 Y ffordd rhwng Abergwydol ac Abercegir yn dirywio.

84.4 Angen sylw i'r B4404 rhwng Hendreseifion a Glanfechan.

84.5 Y cwteri ar y ffordd o'r A470 at Gwastadcoed, Glantwymyn angen sylw.

84.6 Dymuniad yr aelodau yw gwahodd Mr Adrian Jervis o adran trafnidiaeth y Cyngor Sir i gyfarfod o'r Cyngor i egluro pam nad yw rhai materion pwysig yn cael eu datrys. Mae'r un rhai problemau'n codi o fis i fis.

Nid oedd mater arall

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 26ain Mawrth 2015.**

Disgwylir Mr Alistair Knox o'r Cyngor Sir i'r cyfarfod i drafod dyfodol y cyfleusterau cyhoeddus yng Nghemaes.

Following a constructive meeting with representatives of the Welsh Assembly at Pantperthog Village Hall, it is hoped that the future of the site where Mount Pleasant stood in Ceinws has been resolved, and the Welsh Assembly, who own the site, are currently in negotiations with Natural Resources Wales to maintain it in future.

An application to convert a storage space to living accommodation and internal and external alterations at Pen y Bont, Glantwymyn was supported.

The meeting decided to renew membership of One Voice Wales for 2015/16. £180 and £555.60 to GloverSure Ltd, Welshpool for setting up a website for the Council. It is hoped that it will be linked by April.

A safety in the home scheme is available to help the elderly in society. In Powys, the person to contact is Sally Shiels on 0159828049.

The Council agreed to apply for membership of PAVO. (Powys Association of Voluntary Organisations.)

A representative from the County Council has been invited to the March meeting to outline the possibility of transferring the responsibility of the public conveniences in Cemaes to the Community Council.